Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: mesurau arbennig

**Ysgol Gynradd Solfach**
**Solfach**
**Hwlffordd**
**Sir Benfro**
**SA62 6TS**

**Dyddiad yr ymweliad: Mawrth 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Tony Bate | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad y monitro

Bernir bod Ysgol Gynradd Solfach wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd yn Ionawr 2015.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r ysgol oddi ar y rhestr o ysgolion y mae angen gweithredu mesurau arbennig ynddynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Gwella deilliannau disgyblion mwy abl

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Cafwyd gwelliant ym mherfformiad disgyblion mwy abl ar draws yr ysgol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn perfformio ar lefel briodol ac yn cynhyrchu gwaith o safon uchel yn ystod gweithgareddau ac yn eu llyfrau.

Mae athrawon yn defnyddio data'n effeithiol i nodi disgyblion mwy abl, ac mae ganddynt ddisgwyliadau priodol o'r hyn y gallant ei gyflawni. Maent yn cynllunio gweithgareddau a thasgau heriol sy'n galluogi'r disgyblion hyn i gyflawni i safon uchel. Mewn gweithgareddau llythrennedd ac mewn ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, mae athrawon yn pennu meini prawf llwyddo ar gyfer tasgau a gweithgareddau unigol, sy'n herio disgyblion mwy abl yn effeithiol. O ganlyniad, mae disgyblion mwy abl yn dewis ac yn defnyddio ystod eang o eirfa anturus a dychmygus yn llwyddiannus. Maent yn cynllunio'u gwaith gan ddefnyddio ystod o strategaethau yn llwyddiannus, ac maent yn gallu golygu ac ailddrafftio er mwyn gwella eu hysgrifennu. Mae disgyblion mwy abl yn addasu'u harddull ysgrifennu yn ôl y darllenydd a'r diben yn effeithiol, ac yn cyflwyno'u gwaith yn dda mewn ystod o ffurfiau.

Mae athrawon yn cynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau rhifedd drwy ystod o dasgau sy'n bodloni anghenion y disgyblion hyn yn addas, er enghraifft wrth ddatrys problemau rhifiadol yn ymwneud â dogni yn ystod yr Ail Ryfel Byd trwy drosi unedau mesur imperial i rai metrig, a gweithio gydag arian cyn degoli. Fodd bynnag, ni cheir cyfleoedd mor gadarn i ddatblygu rhifedd mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.

### Argymhelliad 2: Codi safonau Cymraeg fel ail iaith

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae gwelliant cryf mewn medrau llafaredd Cymraeg disgyblion. Mae gan ddisgyblion agwedd gadarnhaol at ddysgu'r iaith ac maent yn defnyddio ystod o batrymau a geirfa i gyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol sefyllfaoedd. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 3 a 4 yn siarad yn hyderus yn Gymraeg am y Tuduriaid fel rhan o'u gwaith mewn hanes. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn siarad yn glir iawn gan ynganu'n gywir.

Mae safonau darllen Cymraeg wedi gwella ers yr arolygiad craidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen eu gwaith eu hunain yn effeithiol. Mae eu gallu i ddarllen a deall testun syml o lyfrau a deunydd arall wedi'i argraffu yn datblygu'n briodol. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gallu ateb cwestiynau'n seiliedig ar y plot a'r prif gymeriadau mewn llyfrau cyfarwydd. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i gyfeirio at fanylion yn y testun er mwyn mynegi'u barn a'u syniadau wedi'i ddatblygu gystal.

Wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu gyda mwy a mwy o hyder a chywirdeb mewn ystod o ffurfiau yn Gymraeg. Maent yn dechrau brawddegau mewn amrywiaeth o ffyrdd ac yn trefnu geiriau, ymadroddion a chymalau yn briodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu darnau o waith ysgrifenedig sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ferfau yn fwyfwy hyderus, er enghraifft yn y ffurfiau presennol, gorffennol a negyddol. Mae lleiafrif o ddisgyblion mwy abl yn ysgrifennu darnau estynedig fel rhan o'u gwaith testun.

Mae cyflwyno 'Seren Solfach', sef gwobr wythnosol am ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, wedi cynyddu brwdfrydedd disgyblion yn sylweddol i ddysgu a siarad Cymraeg. Mae'r cynllun gwaith, sy'n cynnwys ffocws clir ar gyflwyno bywiog a chynnwys diddorol, yn dal diddordeb disgyblion yn effeithiol mewn gweithgareddau.

Mae'r ysgol yn cynnwys rhieni'n llwyddiannus wrth hyrwyddo defnydd eu plant o'r Gymraeg, ac yn annog defnyddio'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Er enghraifft, mae disgyblion yn y 'Criw Cymraeg' yn annog ac yn cefnogi disgyblion eraill i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau cyffredinol, fel siop yr ysgol, ac yn ystod yr egwyl ginio.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod yr ysgol yn cynllunio'n briodol fel bod disgyblion yn gallu manteisio ar y cwricwlwm llawn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol wedi addasu ei chynllunio'n dda i sicrhau bod gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion yn cael eu datblygu mewn ystod eang o gyd-destunau. Mae staff wedi creu cynlluniau tymor hir a thymor canolig cynhwysfawr ar gyfer disgyblion o bob oed sy'n dangos dilyniant priodol mewn medrau allweddol a medrau pwnc. Mae'r cynlluniau yn nodi cyfleoedd buddiol ar gyfer datblygu meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen, pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, ac addysg grefyddol yn gynyddol.

Mae cynlluniau athrawon yn nodi gweithgareddau priodol i addysgu medrau mewn ystod eang o gyd-destunau. Un cryfder arbennig yw'r ffordd greadigol y mae staff wedi cynllunio gweithgareddau bywyd go iawn i wella gwaith testun, er enghraifft y diwrnod Ail Ryfel Byd lle'r ymddangosodd "bom heb ffrwydro' ar gae'r ysgol. Mae hyn yn ennyn diddordeb disgyblion yn llawn yn eu dysgu ac yn darparu profiadau ysgogol a difyr ar eu cyfer. O ganlyniad, mae'r strategaeth gynllunio newydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion ar draws yr ysgol. Mae cynlluniau tymor byr athrawon yn fanwl ac maent yn gosod amcanion dysgu sy'n berthnasol i oedran a gallu pob un o'r plant bron.

Ceir cynllunio effeithiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, gydag ystod dda o dasgau â ffocws a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol. Mae athrawon yn cynllunio ar gyfer darpariaeth barhaus a gwell yn briodol, gyda dilyniant addas mewn tasgau, er enghraifft ysgrifennu a chreu rysáit yn y gegin fwd.

Mae'r ysgol wedi rhoi cynllun gwaith newydd ar waith ar gyfer Cymraeg sy'n amlinellu dilyniant yn glir yn natblygiad medrau siarad, darllen ac ysgrifennu disgyblion.

Mae cyfleoedd da i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft y gwaith ar Batagonia a chysylltiadau â'r Congo.

**Argymhelliad 4: Darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu system gynllunio electronig sy'n galluogi staff i gynllunio'n briodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau difyr i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ar draws y meysydd dysgu, gan gynnwys defnyddio TGCh i ddatblygu medrau llefaredd disgyblion. Ceir cyfleoedd addas i ddisgyblion ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfarwyddiadau ar sut i wneud melysion ar gyfer Diwali. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig. Mae athrawon yn cynllunio ystod effeithiol o gyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm, er nad yw hyn wedi cael digon o amser i ddatblygu'n llawn eto.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Maent yn darparu ystod eang o weithgareddau pwrpasol i ddisgyblion er mwyn datblygu'u medrau llythrennedd, er enghraifft wrth ymchwilio ac ysgrifennu esboniad ynglŷn â Lloches Anderson. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion atgyfnerthu a datblygu'u medrau rhifedd y tu allan i wersi mathemateg. Er enghraifft, mae disgyblion rhan uchaf cyfnod allweddol 2 yn gweithio allan yn gywir beth yw cost bwyd ar gyfer eu parti stryd, tra bod disgyblion rhan isaf cyfnod allweddol 2 yn uwchraddio'u modelau o dai Tuduriaid yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol wedi datblygu llyfrynnau targed defnyddiol i helpu disgyblion adnabod y camau nesaf yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae disgyblion yn trafod y targedau hyn yn hyderus ac maent yn gwybod beth i'w wneud i wella eu gwaith. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

**Argymhelliad 5: Gwella marcio gwaith disgyblion gan athrawon i sicrhau bod sylwadau'n cyfeirio at sut y gall disgyblion wella**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae polisi marcio ac adborth priodol gan yr ysgol sy'n sicrhau dull cyson ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn defnyddio amcanion dysgu a meini prawf llwyddo yn effeithiol i ennyn diddordeb dysgwyr yn eu tasgau dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn creu eu meini prawf llwyddo eu hunain sy'n canolbwyntio'n dda ar fathau penodol o destun, er enghraifft ysgrifennu cofiant ar gyfer awdur enwog. O ganlyniad, mae dealltwriaeth dda gan ddisgyblion ar draws yr ysgol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i fod yn llwyddiannus yn eu gwaith.

Mae athrawon yn marcio yn unol ag amcanion dysgu ac yn nodi ffyrdd i ddisgyblion wella eu gwaith yn effeithiol. Mae cyflwyno'r strategaeth "pennau caboli" yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion wella eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Mae hyn hefyd yn eu galluogi i ymateb yn briodol i sylwadau athrawon, sy'n cael effaith gadarnhaol ar safon eu gwaith.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod o strategaethau marcio sy'n galluogi disgyblion i arfarnu'u gwaith yn llwyddiannus. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn defnyddio system goleuadau traffig a thaflenni meini prawf llwyddo i asesu eu gwaith eu hunain yn llwyddiannus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r defnydd o hunanasesu ac asesu cyfoedion yn effeithiol. Mae'r defnydd o adborth a 'ffurflenni anfon-adborth' yn galluogi disgyblion i wella eu darn cyfredol o waith yn llwyddiannus. Maent yn trafod eu gwaith yn aeddfed gyda'u hathrawon ac â'i gilydd. Mae disgyblion yn gwybod beth yw eu targedau personol ac yn eu deall, ac maent yn herio'u hunain yn unol â hynny.

Mae cyflwyno cofnodion dysgu yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion. Mae'r rhain yn galluogi rhieni i wybod beth mae eu plentyn yn ei ddysgu, ac mae sylwadau athrawon yn eu helpu i ddatblygu medrau eu plant yn llwyddiannus gartref.

**Argymhelliad 6: Sicrhau bod arweinwyr yn rhoi cyfeiriad clir i staff a disgyblion a bod ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad clir i'r ysgol, ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel o staff a disgyblion. Mae llinellau cyfathrebu yn glir ac mae pawb yn deall ac yn cefnogi gweledigaeth yr ysgol, gweledigaeth sydd wedi'i datblygu ac sy'n cael ei rhannu gan ddisgyblion, staff a rhieni.

Mae pob un o'r athrawon yn gwneud cyfraniad sylweddol at sicrhau gwelliannau yn yr ysgol. Mae eu cyfrifoldebau mewn perthynas â mynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol yn glir, ac maent yn gweithio'n frwdfrydig i gynllunio, monitro ac arfarnu cynnydd. Mae'r pennaeth yn defnyddio strwythur cadarn i fonitro ac arfarnu gweithgarwch gwella, ac mae ganddo drosolwg clir o ba mor dda y mae'r ysgol yn symud yn ei blaen.

Mae disgrifiadau swydd y staff yn gyfredol ac yn addas i'r diben. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn gadarn ac yn berthnasol i flaenoriaethau gwella presennol yr ysgol, yn ogystal â chyfrifoldebau athrawon unigol. Mae staff yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion cyfredol yr ysgol gyfan, a'r cynnydd yn erbyn

blaenoriaethau gwella. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio'n dda ar wella'r addysgu a chodi safonau, ac mae arweinwyr yn monitro ac yn arfarnu penderfyniadau'n effeithiol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, ac asesu ar gyfer dysgu, ac mae'n parhau i fonitro ac arfarnu cynnydd yn briodol yn y meysydd hyn. Mae gwelliannau yn y meysydd hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion, fel y gwelliannau mewn safonau o ganlyniad i asesu cyfoedion a hunanasesu disgyblion, a'u gallu i gywiro'u gwaith eu hunain, a brwdfrydedd disgyblion a'u defnydd o'r Gymraeg.

**Argymhelliad 7: Datblygu rôl llywodraethwyr o ran herio'r ysgol**

Cynnydd da iawn wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol ac yn adnabod cymuned yr ysgol yn dda. Mae llywodraethwyr yn cyfarfod yn rheolaidd fel grŵp llawn ac mewn is-bwyllgorau. Mae pob un o'r llywodraethwyr yn cefnogi'r ysgol yn dda yn ei gweithgareddau allgyrsiol.

Caiff pob un o'r llywodraethwyr hyfforddiant i ddatblygu'u rolau a'u cyfrifoldebau. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn a ddisgwylir, ac maent yn ymgysylltu'n bwrpasol â'r ysgol a'i gwaith. Mae llywodraethwyr unigol yn ymgymryd â chyfrifoldeb am flaenoriaethau penodol yng nghynllun datblygu'r ysgol, yn ogystal â meysydd pwnc unigol. Byddant yn mynd ar droeon dysgu yn rheolaidd i gyfarfod ag aelodau staff ac i drafod cynnydd yn erbyn blaenoriaethau. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan mewn sesiynau craffu ar lyfrau ac mewn cyfarfodydd cymedroli, ac yn cyfrannu'n ddefnyddiol at y trafodaethau. Yn y sesiynau hyn, maent yn holi ac yn herio'r ysgol yn briodol, er enghraifft, ynghylch targedau disgyblion a'r ymyrraeth sydd ei hangen ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad, maent yn gwneud cyfraniad cadarn at weithdrefnau'r ysgol o ran gosod targedau.

Yn dilyn ymweliadau a chyfarfodydd, mae pob llywodraethwr yn cwblhau adroddiad sy'n eu galluogi i fyfyrio ar yr hyn y maent wedi'i weld, ac i wneud sylwadau ar gamau gweithredu i'r dyfodol. Mae'r rhain yn ddogfennau cryno a defnyddiol sy'n canolbwyntio'n dda ar gryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu ymhellach, ac maent yn aml yn arwain at gynlluniau gweithredu ymarferol. Mae'r cynlluniau hyn yn cael effaith gadarnhaol yn aml ar ansawdd y ddarpariaeth, sy'n dechrau arwain at welliannau mewn safonau.

**Argymhelliad 8: Sicrhau bod monitro trylwyr gan arweinwyr ar bob lefel yn arwain at welliant yn neilliannau disgyblion**

Cynnydd cryf wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o dystiolaeth uniongyrchol o safonau a darpariaeth i lywio'r hunanarfarnu. Gwnânt ddefnydd da o ddata perfformiad ac adroddiadau allanol gan swyddogion awdurdod lleol ac athrawon ymgynghorol, yn ogystal ag adroddiadau monitro mewnol. Mae'r rhain yn cynnwys arsylwadau o wersi, craffu ar lyfrau, ac ymweliadau gan lywodraethwyr a throeon dysgu. Mae'r

rhain yn arfarnol, yn cynnwys cryfderau a meysydd i'w gwella, ac yn arwain at weithgareddau ymarferol i godi safonau a gwella'r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae athrawon wedi dechrau arsylwi gwersi'i gilydd. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei datblygu y mae'r broses hon.

Mae proses fonitro'r ysgol yn gadarn ac yn sicrhau bod gan arweinwyr ddarlun cywir o'i chryfderau a'i gwendidau. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ystyried tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys barnau rhieni, llywodraethwyr, athrawon a disgyblion. Mae llais y disgybl yn chwarae rhan bwysig, gyda llawer o ddisgyblion yn ymateb yn aeddfed i holiaduron a thrafodaethau. Mae'r adroddiad ei hun yn arfarnol ac yn nodi meysydd i'w gwella yn gywir, gyda ffocws clir ar ymateb i argymhellion yr arolygiad craidd.

Mae'r blaenoriaethau a nodwyd yng nghynllun datblygu'r ysgol yn cysylltu'n glir â deilliannau'r broses hunanarfarnu. Mae'r blaenoriaethau yn canolbwyntio'n briodol ar wella'r addysgu a deilliannau disgyblion. Ceir manylion da yng nghynllun datblygu'r ysgol am gyfrifoldebau, cyllid, adnoddau a'r amser sydd ei angen i gyrraedd cerrig milltir penodol. Mae'r rhain yn heriol, ond yn realistig. Mae athrawon ac arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn pob blaenoriaeth yn rheolaidd, gydag atebolrwydd addas ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu gofynnol. O ganlyniad, mae'r broses monitro ac arfarnu yn cyfrannu at welliannau mewn darpariaeth a safonau, er enghraifft y cynnydd mewn medrau iaith Gymraeg disgyblion.

## Argymhellion

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn a gwella arno, dylai'r ysgol barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud cynnydd pellach.